



# Ffurflen Presenoldeb Canllaw i Rieni

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllaw hwn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen amgaeedig a'i hanfon yn ôl. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthon ni pwy sy'n dod i'r gwrandawriad. Os nad ydych chi'n llenwi'r ffurflen a'i hanfon yn ôl erbyn y dyddiad rydym yn gofyn amdani, efallai na fydd eich cynrychiolwyr a'ch tystion yn gallu dod i'r gwrandawriad. Os ydych chi'n anfon y ffurflen hon yn ôl, a hithau ddim yn gyflawn, mae'n bosibl na fydd unrhyw un rydych chi heb ei enwi yn gallu dod i'r gwrandawriad.

Os oes angen rhagor o amser arnoch chi i roi'r wybodaeth hon i ni, mae'n rhaid i chi ysgrifennu atom i ddweud pam. Efallai y byddwn ni'n gallu rhoi ychydig bach mwy o amser i chi.

Cyfeiriad:  
TAAAC  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Spa Road East  
Llandrindod  
Powys, LD1 5HA

E-bost: [sentw@wales.gsi.gov.uk](mailto:sentw@wales.gsi.gov.uk)

Gwefan: [SENTW](#)

Llinell Gymorth: 01597 829800

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

## Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## Pam fod yn rhaid i mi lenwi ffurflen presenoldeb?

Bydd angen i chi ddweud wrthon ni ar y ffurflen presenoldeb pwy fydd yn dod gyda chi i'r gwrandawriad. Os nad ydych chi'n rhoi'r wybodaeth hon i ni, efallai y byddwn yn rhwystro eich tyst rhag cymryd rhan yn y gwrandawriad neu hyd yn oed rhag bod yn yr ystafell y mae'r gwrandawriad yn cael ei gynnal ynddi. Os ydych chi'n newid eich tystion, mae angen i chi ddweud wrthon ni ar unwaith.

Does dim rhaid i chi ddod â thystion gyda chi o gwbl, ond, os ydych chi am wneud hynny, cewch ddod â hyd at ddau dyst gyda chi i'r gwrandawriad. Yn aml, bydd adroddiad gan weithiwr proffesiynol sydd wedi asesu eich plentyn yn cynnwys yr holl wybodaeth rydych am i ni ei hystyried ac efallai na fydd angen i'r person hwnnw ddod i'r gwrandawriad hefyd. Os ydych chi am ddod â mwy na dau dyst gyda chi, bydd angen i chi ofyn am ein caniatâd yn ysgrifenedig.

## Rhieni a phlentyn

Mae unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn gallu dod i'r gwrandawriad.

Gall eich plentyn hefyd ddod i'r gwrandawriad a rhoi tystiolaeth, ond efallai y byddwn yn gofyn iddo ef neu hi adael y gwrandawriad am beth o'r amser, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn trefnu i berthynas neu ffrind i chi ddod i edrych ar ei ôl/hôl pan nad yw yn ystafell y gwrandawriad. Fyddwn ni ddim yn gallu edrych ar ôl eich plentyn.

Byddwch yn gallu hawlio costau teithio i chi a'ch plentyn ddod i'r gwrandawriad. Os ydych chi'n dod â rhywun gyda chi i edrych ar ôl eich plentyn, byddwch yn gallu hawliau costau teithio iddyn nhw hefyd. Byddwn yn anfon manylion y treuliau rydych yn gallu eu hawlio atoch yn nes at yr amser a byddwn yn rhoi ffurflen i chi ei llenwi yn y gwrandawriad.

Gallwch ddewis siarad Cymraeg neu Saesneg. Rhowch wybod i ni pa iaith rydych am ei defnyddio.

## Cynrychiolydd (neu'r person sy'n eich helpu i gyflwyno eich achos)

Rydych yn gallu cyflwyno eich achos eich hun. Os oes well gennyh chi, gallwch gyflwyno eich achos gyda help rywun arall. Neu gallwch ddewis cael eich cynrychioli. Nid oes yn rhaid i'ch cynrychiolydd fod yn gyfreithiol gymwys.

Gallwch ofyn am gael eich cynrychioli gan fwy nag un person. Os ydych am gael eich cynrychioli gan fwy nag un person, dylech ysgrifennu atom i esbonio pam cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd ofyn i'r cadeirydd yn y gwrandawriad. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y llywydd (neu'r cadeirydd ar y diwrnod) yn rhoi caniatâd ymlaen llaw.

Os ydych chi'n cael eich cynrychioli yn y gwrandawriad, neu os bydd rhywun yn eich helpu i gyflwyno'ch achos, dylech ymgynghori â'ch cynrychiolydd neu'r person sy'n eich helpu cyn rhoi dyddiadau i ni pan mae'n gyfleus i'r ddau ohonoch ddod i'r gwrandawriad. Chi sydd hefyd yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod eich cynrychiolydd neu'r person sy'n eich helpu yn gwybod pa bryd y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal.

Ni fydd eich cynrychiolydd neu'r person sy'n eich helpu yn gallu hawlio unrhyw dreuliau gennym ni.

Gall eich cynrychiolydd ddewis siarad Cymraeg neu Saesneg. Cofiwch roi gwybod i ni pa iaith y mae ef/hi am ei defnyddio.

## Eiriolwr

Os ydych chi am i rywun ddod i'r gwrandawriad i gyfleu dymuniadau a barn y plentyn, rhowch ei fanylion. Bydd eich eiriolwr yn gallu hawlio costau teithio.

## Tystion

Rhowch enw a chyfeiriad y tystion a fydd yn dod gyda chi i'r gwrandawriad. Chi sy'n gyfrifol am ymgynghori â'ch tystion cyn pennu dyddiad. Chi sydd hefyd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod eich tystion yn gwybod pa bryd y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal, a'u bod yn mynd i'r gwrandawriad. Bydd eich tyst yn gallu hawlio costau teithio am fynd i'r gwrandawriad. Byddwn yn anfon manylion y treuliau rydych yn gallu eu hawlio atoch yn nes at yr amser.

Fel arfer, mae gennych hawl i ddod â hyd at ddau dyst gyda chi. Os hoffech chi ddod â mwy na dau gyda chi, dylech ysgrifennu atom i ddweud wrthon ni pam cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd ofyn i'r cadeirydd yn y gwrandawriad. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y llywydd (neu'r cadeirydd ar y diwrnod) yn rhoi caniatâd ymlaen llaw.

Os nad ydy'ch tyst ar gael, mae'r tribiwnlys yn gallu gwrandao ar eich apêl o hyd.

Gall eich tystion ddewis siarad Cymraeg neu Saesneg. Rhowch wybod i ni pa iaith y maen nhw am ei defnyddio.

## Beth os bydd tyst yn gwrthod dod i'r gwrandawriad?

Os ydych chi wedi gofyn i rywun a'i fod yn anhapus ynglŷn â dod i'r gwrandawriad, gallwch ysgrifennu atom i esbonio pam rydych chi'n teimlo ei bod yn bwysig iddo fod yno. Bydd angen i ni gael eich cais o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.

**Os ydyn ni'n cytuno, byddwn yn codi gwŷs tystio i chi ei rhoi i'r person. Wedyn bydd yn rhaid i'r person hwnnw ddod i'r gwrandawriad oni bai bod ganddo resymau da iawn dros beidio.**

## Sylwedydd

Os ydych chi'n awyddus i rywun ddod gyda chi sydd heb gael ei enwi fel tyst ac na fydd yn cymryd rhan yn y gwrandawriad, rhowch ei fanylion. Dim ond un person rydych chi'n cael ei enwi. Ni fyddwn yn talu costau teithio'r person hwnnw. Mae'r llywydd yn gallu penderfynu na chaiff rywun rydych chi wedi'i enwi ddod i'r gwrandawriad.

## Cyfieithydd neu Arwyddwr

Bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg ond, os nad y Gymraeg neu'r Saesneg yw eich mamiaith, rydyn ni'n gallu trefnu i gyfieithydd fod yno. Os oes arnoch angen arwyddwr, byddwn yn trefnu hyn hefyd. Byddwn yn talu am gyfieithwyr ac arwyddwyr. Os nad ydych chi wedi gofyn am gyfieithydd neu arwyddwr yn barod, dywedwch wrthon ni, gan gofio dweud pa iaith y mae arnoch ei hangen.

## Anghenion eraill

Os oes gennych chi, neu rywun sy'n dod gyda chi i'r gwrandawriad, anabledd, neu anghenion eraill a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawriad, dywedwch wrthon ni.

## Canlyniad yr apêl/hawliad

Bydd aelodau'r Tribiwnlys yn gwneud penderfyniad drwy ystyried yr holl dystiolaeth ôl i'r gwrandawriad orffen, ond ni fyddant fel arfer yn rhoi'r canlyniad i chi ar ddiwrnod y gwrandawriad. Byddwn yn ei anfon i chi drwy'r post yn hwyrach ymlaen.

Rydym yn anelu at bostio ein penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i chi a'r ALI cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawriad. Ond mae rhai achosion angen ychydig bach mwy o amser cyn ein bod yn gallu anfon y penderfyniad atoch chi. Allwn ni ddim rhoi'r penderfyniad i chi (nac i'r ALI) dros y ffôn.

Os oedd y gwrandawriad wedi cael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg, byddwn yn ysgrifennu'r penderfyniad yn yr un iaith ag yr oeddem wedi gwrandao ar yr apêl. Os nad y Gymraeg neu'r Saesneg yw eich mamiaith, cewch ofyn bod ein penderfyniad yn cael ei gyfieithu, neu cewch ofyn am gael y penderfyniad mewn Braille. Os ydych chi'n gwneud cais am gyfieithu'r penderfyniad, mae'n debyg y bydd hynny'n achosi oedi cyn cael y penderfyniad.

Cadwch y canllawiau hyn mewn lle diogel. Mae angen i chi lenwi'r ffurflen amgaeedig a'i hanfon yn ôl atom erbyn y dyddiad rydym wedi'i bennu.